



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

09 Mai 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr ynglŷn â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n ymwneud â'r pwerau cychwyn ar gyfer y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus.

Rwy'n ddiolchgar ichi am ystyried y Bil hwn a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ei sgil. Bydd creu trosedd ar gyfer y rhai sy'n aflonyddu ar sail rhyw ar ein strydoedd ac yn ein manau cyhoeddus yn sicrhau bod menywod a merched yn cael y lefel briodol o ddiogelwch. Bydd hefyd yn cyfleu'r neges na fydd ymddygiad o'r fath yn cael ei oddef.

Yn unol â'r wybodaeth ddiweddaraf am amserlen y Bil hwn yn Nhŷ'r Arglwyddi, estynnodd Pwyllgor Busnes y Senedd y dyddiad cau ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i 8 Mehefin. Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn gweithio ar eiriad y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu cytuno ar amserlen i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau er mwyn dechrau'r darpariaethau perthnasol yn y Bil. Bydd hyn ar gael ichi ar y cyfle cyntaf a chyn y dyddiad cau diwygiedig.

Mae diogelu menywod a merched rhag camdriniaeth, mewn manau cyhoeddus a phreifat, yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae ein Rhaglen Lywodraethu wedi ymrwmo i ehangu'r strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gynnwys aflonyddu a cham-drin ar y stryd ac yn y gweithle yn ogystal â'r cartref, er mwyn sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw. Cyhoeddwyd y strategaeth ym mis Mai 2022 ac mae i'w gweld yma: [Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026 \[HTML\] | LLYW. CYMRU.](#)

Dylai menywod a merched fod yn saff ym mhob agwedd ar eu bywydau, gan gynnwys mewn manau cyhoeddus, a dim ond un rhan o'n huchelgais i gyflawni'r nod hwn yw'r darn hwn o ddeddfwriaeth.

Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.